# Cymeriadau Difyr



| | |
|---|---|
| Agwedd: | **Mesur cynhwysedd – llawn, gwag, hanner llawn.** |
| Adnoddau: | • Casglu amrywiaeth o wahanol gynwysyddion e.e. poteli, jygiau, cwpanau ayyb.<br>• Ardal ddŵr.<br>• Peli lliwgar yr un faint, a bwced.<br>• Cardiau lluniau o gynwysyddion llawn/gwag/hanner llawn – *gweler y ddogfen 'Cynhwysedd – lluniau'.*<br>• Poteli o'r un maint sydd wedi eu llenwi ag amrywiol gyfeintiau o ddŵr. |
| Camau: | **<u>Cam 1:</u>**<br>**<u>Ardal ddŵr allanol / wrth y sinc yn dosbarth/padell o ddŵr y tu blaen i'r dosbarth.</u>**<br>Trafod maint pob cynhwysydd:<br>• Pa un fydd yn dal y mwyaf/lleiaf o ddŵr?<br>• Pa rai sy'n llawn/gwag/hanner llawn?<br>• Sut gallwn ni lenwi hwn?<br>• Sawl llond ______ fydd ei angen i lenwi'r ______?<br><br>**<u>Cam 2: Gweithgareddau</u>**<br>• Dysgwyr yn chwarae yn yr ardal ddŵr – llenwi/gwagio cynwysyddion, hanner llawn ayyb.<br>• Didoli lluniau i grwpiau – llawn, gwag, hanner llawn.<br>• Trefnu cynwysyddion o'r un maint sy'n cynnwys amrywiol gyfeintiau o ddŵr, o'r mwyaf llawn i'r mwyaf gwag.<br><br>**<u>Cam 3: Ardal allanol</u>**<br>Gweithgaredd ar ffurf ras gyfnewid:<br>• Dyfalu sawl pêl fydd yn llenwi'r bwced.<br>• Plant i sefyll tu ôl i gôn gyda llond sach o beli o'r un maint.<br>• Cario un bêl ar y tro i'w rhoi mewn bwced sydd ym mhen arall yr ardal.<br>Ar ôl gorffen:<br>• Sawl pêl sydd yn llenwi'r bwced?<br>• Defnyddio numicons a/neu rifau i gofnodi/labeli sawl pêl coch/gwyrdd ayyb sydd yno?<br>• Sawl pêl fyddai ei hangen er mwyn i'r bwced fod yn hanner llawn? |



# Cymeriadau Difyr



| | |
|---|---|
| Cwestiynu: | • Pa rai sy’n llawn/gwag/hanner llawn?<br>• Sut mae llenwi ________?<br>• Pa un sydd fwyaf llawn/gwag? |
| Beth nesaf? | Cyfrif cyfaint:<br>Sawl llond cwpan fydd yn llenwi’r cynhwysydd?<br>• Amrywiol gynwysyddion.<br>• Tabl cofnodi – amcangyfrif ac yna mesur. |

